



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

DATGANIAD LLES

2017-2022



Hirdymor



Atal



Integreddio



Cydweithio



Cynnwys



1. Rhagair

- 1.1. Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, mae'n bleser gennyf gyflwyno ein pedwerydd Datganiad Lles sy'n nodi ein hamcanion lles lleol ar gyfer y gymuned o 2017 i 2022. Datblygwyd yr amcanion yn barod ar gyfer lansio'r cynllun yn 2017 gyda thros flwyddyn o ystyriaeth ofalus i gymunedau Merthyr Tudful, a'n lleoliad rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd yr ymarfer yn cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â chymunedau a rhanddeiliaid eraill.
- 1.2. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi newid y ffordd y mae'n gweithio er mwyn cyflawni'r amcanion hyn yn well. Wrth wneud hynny, rydym yn parhau i gasglu pwyntiau dysgu allweddol ac yn symleiddio ein prosesau er mwyn canolbwyntio mwy ar y canlyniadau a ddeilliodd o'n hymgynghoriad a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid. Fel y nodwyd y llynedd, nid yw ein hamcanion wedi newid ond maent wedi dod yn fwy penodol. Rwy'n dal yn hyderus bod ein hamcanion lles yn gosod y sylfaen ar gyfer cynllun effeithiol gan y Cyngor.
- 1.3. Mae ein hamcanion lles yn ceisio sicrhau gwelliannau parhaus yn lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r ffocws yn dal i fod ar gynorthwyo pobl pan fyddant ei angen fwyaf a rhoi iddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau llawn. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy newid ein dull o ganolbwyntio ar y pum ffordd o weithio fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 1.4. Mae ein hamcanion lles wedi cael eu paratoi ac yn cael eu cyflwyno mewn cyfnod o her a newid. Ni fu erioed mor bwysig gwneud gwahanol bethau, gwneud gwell defnydd o'n hasedau a gweithio'n ddoethach. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud defnydd effeithiol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ddiogelu lles Merthyr Tudful nawr ac yn y dyfodol.
- 1.5. Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle i ni weithio'n wahanol wrth gyflwyno ein Cynllun Lles Corfforaethol. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio'r pum ffordd o weithio a sicrhau bod y saith nod lles bob amser wrth wraidd yr hyn a wnawn.
- 1.6. Mae cyhoeddi'r datganiad hwn a'r Cynllun Lles Corfforaethol (Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned) yn cael ei wneud yn ystod yr argyfwng coronafeirws byd-eang. Oherwydd hyn, efallai y caiff rhai elfennau eu hail-edrych arnynt yn ddiweddarach yn y flwyddyn gyda gwelliannau pellach.



Ellis Cooper
Prif Weithredwr CBS
Merthyr Tudful Dros Dro

2. Cyflwyniad

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 2.1. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Am y tro cyntaf yn ôl y gyfraith, mae gan gyrrff cyhoeddus bwrpas cyffredin a gweledigaeth a rennir yn genedlaethol.
- 2.2. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod lles ar waith i sicrhau bod pob un ohonom yn gweithio tuag at gyflawni'r weledigaeth a rennir. Mae gan bob un o'r nodau ddisgrifydd i adeiladu dealltwriaeth gyffredin ([Atodiad I](#)).
- 2.3. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrrff cyhoeddus i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion lles ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Yn ôl y Ddeddf, mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy¹ yn cael ei nodi gan y pum ffordd o weithio ([Atodiad II](#)).

Datganiad Lles

- 2.4. Yn ein datganiad lles, rydym yn nodi cwmpas pob amcan lles. Wrth wneud hynny, amlinellwn pam yr ydym o'r farn y bydd cyfarfod y nod yn gwneud y gorau o'n cyfraniad tuag at gyflawni'r saith nod lles.
- 2.5. Mae'r datganiad lles yn cyfleu'n glir y cysylltiadau rhwng pob un o'n hamcanion lles. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau dull integredig a chydweithredol o gyflawni pob un o'r saith nod lles.
- 2.6. Yn y tymor hir, mae ein hamcanion lles yn ceisio sicrhau ein bod yn sicrhau gwelliannau ym mhob un o'r pedwar piler lles (economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) ar gyfer y bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful nawr ac yn y dyfodol.

¹ Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn nodi pum ffordd o weithio i'n helpu ni i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau tymor hir a wynebwn.

Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

- 2.7. Fel corff cyhoeddus, mae angen i ni sicrhau bod y ffordd rydym yn gweithio yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r ffordd yr ydym wedi gweithredu'r egwyddor hon wrth osod ac adolygu ein hamcanion wedi cynnwys:



Ymglymiad

Ymgysylltu â phobl sy'n ymweld, yn byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful wrth i ni gynnal ein hasesiad lles. Roedd cyfranogiad lleol yn canolbwyntio ar ddeall lles personol a chynhyrchu gwybodaeth sy'n seiliedig ar gryfder trwy ofyn cwestiynau megis "Beth sy'n dda yn eich cymunedau?" a "Beth fyddai'n gwella'ch cymunedau?"



Cydweithredu

Buom yn cydweithio ag Uwch Swyddogion ar draws y Cyngor wrth ddadansoddi'r wybodaeth asesu a datblygu'r amcanion lles. Mae hyn yn ein helpu i godi ymwybyddiaeth a phrofiad ymarferol o'r pum ffordd o weithio ar draws gwasanaethau.



Integreiddio

Integreiddio adnoddau o fewn y Cyngor i wneud y gorau o'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ar y cyd i helpu adeiladu amcanion lles a ddellir gan bawb.



Atal

Mae lleihau'r posibilrwydd o weithio seilo trwy gynnwys yr holl wasanaethau a all gyfrannu at gyflawni amcan lles wedi ein helpu i weithio'n well sicrhau ffocws ar atal, a gwneud penderfyniadau sy'n fwy integredig a chysylltiol.




Hir Dymor

Mae defnyddio rhagamcanion poblogaeth y Fwrdeistref Sirol wedi helpu i ganolbwyntio ar yr amodau angenrheidiol sydd eu hangen yn yr hir dymor i godi a chadw poblogaeth oedran gweithio.

Ein Blaenoriaethau Corfforaethol Ehangach

- 2.8. Yn 2017, cytunwyd ar amcanion Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf gan bartneriaid. Tua'r un adeg roedd Cabinet y Cyngor yn nodi ei flaenoriaethau. Mae'r ffeithlun isod yn amlinellu sut mae'r rhain i gyd yn ffithio gyda'i gilydd i sicrhau bod unrhyw effaith a wneir yn erbyn y canlyniadau hyn yn cael ei chydlynu i sicrhau'r budd mwyaf posibl.



- 2.9. Mae dogfen 'Gweledigaeth a Rennir' gyfredol y Cyngor yn gychwyn i edefyn darpariaeth gwasanaethau ar draws y Cyngor ([Atodiad IV](#)). Caiff ein hamcanion a'n canlyniadau lleol eu crynhoi mewn [Strategaeth ar Dudalen](#). Y pum ffordd o weithio yw'r mecanwaith ar gyfer cyflwyno a newid gwasanaethau. Ar ddechrau'r Ddeddf, diweddarwyd fframwaith prosiect a rheoli newid y Cyngor (gan gynnwys asesiad effaith integredig wedi'i ddiweddarau) er mwyn sicrhau bod y saith nod cenedlaethol, y pedwar amcan lleol a'r pum ffordd o weithio yn cael eu hymgorffori yn y broses o wneud penderfyniadau a chyflawni.
- 2.10. Mae amcanion tîm ac unigol hefyd yn cael eu llywio'n sylfaenol gan y saith nod cenedlaethol, y pedwar amcan lleol a'r pum ffordd o weithio. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn cyfarfodydd un-i-un unigol a chynhelir arfarniadau rhwng aelodau'r staff a'u rheolwr. Felly bydd pob aelod o'r tîm yn gallu gweld sut mae ei rôl yn helpu i gyflawni'r pedwar amcan lleol ac yn wir y saith nod cenedlaethol. Dangosir hyn yn [Atodiad IV](#). Yn yr un modd, neu'n bwysicach efallai, mae ffyrdd o weithio'n cael eu hadolygu a'u newid gyda'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n galluogi timau i weithio'n gallach, nid yn galetach.

3. Trechu Tlodi yn Ein Cymunedau

- 3.1 Mae achosion a chanlyniadau tlodi yn lluosog ac yn gymhleth. Er bod cyfran yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi incwm yng Nghymru wedi gostwng dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae lefelau tlodi yng Nghymru yn parhau uwchlaw gwledydd cartref eraill y DU (Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).
- 3.2 Mae bron i chwarter o'r holl unigolion yng Nghymru yn byw mewn **tlodi cymharol**, gyda lefelau o **dlodi absoliwt** ond mymryn o dan hyn. Dengys ystadegau swyddogol fod tlodi o oedran gweithio yng Nghymru yn dal i barhau, er gwaethaf twf cyflogaeth². Mae cyflogau cyfartalog yng Nghymru yn dal yn is heddiw na chyn cwmp ariannol 2008 gyda bron i chwarter yr holl weithwyr yng Nghymru yn derbyn cyflog sy'n is na'r cyflog byw go iawn.
- 3.3 Ym Merthyr Tudful, ceir cyfraddau anweithgarwch economaidd uchel o hyd. Er gwaethaf gwelliannau ar lefel leol, mae cyfraddau diweithdra'n parhau'n uwch na chyfartaledd Cymru, gyda lefel yr aelwydydd di-waith yn dal i gynyddu. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod yr enillion wythnosol gros cyfartalog ym Merthyr Tudful tua £70 yn is na chyfartaledd Cymru, sef £535.00 ar hyn o bryd.³
- 3.4 Gall effaith tlodi gael effaith sylweddol ar les pobl. Mae rhai enghreifftiau o hyn yn cynnwys:
- **Tai** – Mae hon yn elfen ganolog o ansawdd bywyd ac mae'n parhau i fod yn brif bwynt lle ceir pwysau ar bobl sy'n wynebu tlodi, yn enwedig os ydynt yn goroesi budd-daliadau. Gall y cynnydd mewn costau tai arwain at alw uwch am dai cymdeithasol; mewn rhai achosion, gall arwain at fwy o risg o ddigartrefedd. Lle mae digartrefedd yn digwydd, mae tystiolaeth yn awgrymu po hiraf y bydd person ar y strydoedd, y gall materion eilaidd mwy tebygol megis cardota neu gamddefnyddio sylweddau ychwanegu pwysau pellach;
 - **Tlodi bwyd** – Gall hyn peri i bobl fod yn flinedig a heb egni gan arwain at lefelau canolbwyntio is (sy'n arbennig o andwyol ar gyfer plant yn yr ysgol oherwydd gallai effeithio ar eu gallu i ennill cymwysterau a datblygu sgiliau). Mae tlodi bwyd bellach yn cael ei gydnabod yn ehangach o fewn ein cymunedau (e.e. drwy wasanaethau a gynigir gan fanc bwyd Merthyr Tudful a Cynon);
 - **Tlodi mewn gwaith** – Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, mae Cymru wedi llwyddo i leihau diweithdra a gwella sgiliau oedolion. Fodd bynnag, mae llawer o bobl wedi'u 'cloi allan' o'r llwyddiant economaidd hwn, gyda'r perygl o dlodi'n cynyddu i bobl mewn teuluoedd sy'n gweithio. Gall swyddi ar gyflog isel ac ansefydlog, ynghyd â chostau byw cynyddol a budd-daliadau annigonol olygu bod llawer o bobl yng Nghymru 'dan glo - mewn brwydr ddyddiol i gael digon o arian i gael y ddeupen ynghyd'. Y dewis

² TUC Cymru

³ StatsCymru – cyfartaledd (canolrif) enillion wythnosol gros yn ôl ardal leol a blwyddyn

sy'n wynebu rhai teuluoedd o ganlyniad yw gorfod bwydo eu teuluoedd neu dalu eu rhent. Gall hyn arwain wedyn at straen ychwanegol a cholli hyder.

- **Tlodi tanwydd** – Gall hyn arwain at faterion iechyd sy'n deillio o'r ffaith bod pobl yn gorfod dewis rhwng 'gwresogi neu fwyta'. Yn ogystal, gall byw mewn tai oer, llaith a thywyll olygu bod rhai pobl yn colli eu cysylltiadau cymdeithasol gan y gallent fod yn amharod i wahodd pobl i'w cartrefi. Gallai hyn arwain at deimlad o gael eich diarddel o gymdeithas a all gael effaith negyddol nid yn unig ar eu lles corfforol ond hefyd ar eu lles meddyliol.

- 3.5 Mae Cynllun Lles Corfforaethol y Cyngor wedi cael ei gynllunio i nodi lle, trwy weithgareddau wedi'u targedu, mae ein sefydliad yn anelu at leihau effaith tlodi. Ar yr un pryd, nod y cynllun yw cefnogi annibyniaeth pobl a'u galluogi i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus. Ar draws y sefydliad, ac mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid allweddol, byddwn yn cynnig gwasanaethau sy'n helpu i gefnogi'r rhai sydd mewn perygl o dlodi yn ogystal â chynnig cyngor, arweiniad a mwy o gymorth ymarferol i'r rhai y mae tlodi'n effeithio arnynt.
- 3.6 I helpu pobl i nodi'n glir ble mae gwasanaethau'r Cyngor yn cefnogi atal neu fynd i'r afael â thlodi, rydym wedi cyflwyno'r botwm isod. Wrth i chi barhau drwy'r Cynllun hwn ble bynnag y gwelwch y botwm hwn, rydym yn dangos sut mae ein gwasanaethau naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn cefnogi pobl i fynd i'r afael â thlodi.



4. Amcanion Lles

Lles ym Merthyr Tudful

- 4.1. Fel rhan o'n dyletswydd lles o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion lles wedi'i ailffocysu ym mis Ebrill 2019 fel y nodir yn ein cynllun, *Canolbwytio ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned*
- 4.2. Cynhaliwyd asesiad lles y boblogaeth gan yr aelod-sefydliadau sy'n ffurfio partneriaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf er mwyn datblygu ein dealltwriaeth o sut i gael effaith gadarnhaol ar les ac i nodi'r hyn sy'n bwysig i gymunedau. Cyhoeddwyd asesiad anghenion ym mis Mawrth 2017 a gellir ei weld ar ⁴wefan Ein Cwm Taf Mae'r wybodaeth hon wedi helpu i lunio'r amcanion lles a deall ymatebion posibl i wella lles.
- 4.3. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau bod ei amcanion lles wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni pob un o'r saith nod lles. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion hynny.
- 4.4. Yn dilyn yr ymarferion ailffocysu a wnaethom, mae ein hamcanion lles lleol yn parhau'n bedwar o ran nifer. Nod hyn yw sicrhau bod mwy o ffocws ar gyflwyno a gwella atebolrwydd. Wedi'i drefnu yn ôl thema lles, mae gan bob amcan lles ganlyniadau clir a fydd yn ein helpu i ymateb i anghenion y gymuned leol a chyfrannu at y saith nod lles cenedlaethol.

Dechrau Gorau

Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.

Bywyd Gwaith

Mae pobl yn teimlo y cânt eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau gyda seilwaith diogel sy'n datblygu, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan atyniadol.

Lles Amgylcheddol

Mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd a'n cefn gwlad..

Byw yn Dda

Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.

⁴ Gallwch ddarllen [asesiadau lles y boblogaeth](#) a'r [asesiadau lles](#) ar ein wefan [Ein Cwm Taf](#).

5. Amcan Dechrau Gorau: Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.⁵



Blaenoriaeth yr amcan hwn yw sicrhau gwelliannau yng nghanlyniadau addysgol plant a phobl ifanc.

- 5.1. Mae addysg yn un o ragfynegwyr clirïaf canlyniadau bywyd, megis cyflogaeth, incwm a statws cymdeithasol, ac mae'n rhagfynegi agweddau a lles. Mae'r amcan yn integreiddio'r daith addysgol gyflawn, o'r blynyddoedd cynnar hyd at y blynyddoedd gorfodol ac ôl-16. Mae'r amcan yn rhoi sgiliau a phriodolddau i blant a phobl ifanc i'w helpu gwella eu bywydau eu hunain.
- 5.2. Mae gwella cefnogaeth y blynyddoedd cynnar yn hanfodol wrth fynd i'r afael ag achosion profiadau niweidiol plentyndod a gwyddom eu bod yn cael effaith niweidiol ar iechyd a lles yn y dyfodol. Rydym yn diffinio'r blynyddoedd cynnar fel cyn-geni hyd at 7 oed. Mae'r diffiniad eang hwn yn cydnabod pwysigrwydd beichiogrwydd o ran dylanwadu ar ganlyniadau a phontio i'r ysgol gynradd fel cyfnod tyngedfennol ym mywydau plant.
- 5.3. Mae ymchwil yn dangos bod gwerth i ysgolion hybu iechyd a lles ymhlith disgyblion. Mae disgyblion sydd â gwell iechyd a lles yn fwy tebygol o fod yn barod i ddysgu a chyflawni'n well yn academiaidd.
- 5.4. Mae'r amcan hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol a chynaliadwy i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Er bod yr ymagwedd hon yn bwysig i bob plentyn bydd o fudd yn bennaf i blant sy'n wynebu anhawster neu sydd â risg uchel o ganlyniadau gwael yn hwyrach mewn bywyd. Y canlyniadau allweddol ar gyfer Dechrau Gorau yw fel a ganlyn:
 - Mae plant yn byw mewn amgylchedd cartrefol ac ysgogol;
 - Mae plant yn cael mynediad i addysg cyn ysgol ac oedran ysgol o ansawdd uchel;
 - Gwella'r canlyniadau addysgol i bob plentyn a pherson ifanc; a
 - Bod plant a phobl ifanc yn mwynhau iechyd a lles emosiynol da.
- 5.5. Mae'r risg o ganlyniadau gwaeth i blant a theuluoedd yn cyd-fynd yn gryf â ffactorau sylfaenol, gan gynnwys tlodi, amddifadedd a lefelau cymwysterau isel rhieni. Mae straen ehangach megis dyled, camddefnyddio sylweddau, tai gwael a diffyg cyflogaeth hefyd yn effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc.
- 5.6. Rhaid i'r dechrau gorau i fywyd weithio gyda'n hamcanion lles eraill i fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol hyn, yn enwedig:

⁵ Mae'r amcan lles hwn yn cydnabod hawl pob plentyn ifanc i berthnasoedd, amgylcheddau a gwasanaethau o ansawdd uchel a byddant yn cyfrannu'n gryf at hyrwyddo a chynnal hawliau plant fel y'u diffinnir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

- Bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith datblygu, diogel yn gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.
- Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.

5.7. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein siawns o gyflawni'r dechrau gorau, bydd angen ymateb integredig ar draws ein holl amcanion lles trwy gymhwyso'r pum ffordd o weithio.

6. Amcan Bywyd Gwaith: Mae pobl yn teimlo cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu, diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol



Blaenoriaeth yr amcan hwn yw datblygu'r amgylchedd a rhwydwaith er mwyn i fusnesau ffynnu.

- 6.1. Mae ymchwili⁶ yn dangos bod pobl sydd heb unrhyw gymwysterau addysgol yn fwy tebygol o fod ag incwm cymharol isel a bod pobl nad ydynt mewn cyflogaeth heb unrhyw gymhwyster yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar. Mae yna hefyd dystiolaeth i awgrymu bod amgylchedd trefol a reolir yn dda a gwasanaethau lleol o ansawdd uchel yn bwysig i greu amodau sy'n ddeniadol i fuddsoddwyr busnes, ymwelwyr a thrigolion lleol.
- 6.2. Pan fydd pobl leol yn siarad am ddiwylliant, cyfeirir ato'n aml fel cyfle i ddathlu. Mae Canol y Dref ar ei newydd wedd wedi dod yn ased ar gyfer cynnal gweithgareddau diwylliannol sy'n dod â phobl ynghyd ac sydd ar fin datblygu ymhellach. Mae gwneud cysylltiadau cymdeithasol drwy'r mathau hyn o ddigwyddiadau yn cydberthyn yn uniongyrchol â gwelliannau mewn lles corfforol a meddyliol a gall helpu i frwydro yn erbyn y twf mewn unigedd ac unigrwydd cymdeithasol. Gall digwyddiadau diwylliannol hefyd helpu i hybu ffyniant y Fwrdeistref Sirol drwy ddenu ymwelwyr a thwristiaid, gan ddarparu cyflogaeth a chyfleoedd datblygu sgiliau.
- 6.3. Y canlyniadau allweddol y mae Bywyd Gwaith am eu cyflawni yw:
 - Mae Merthyr Tudful yn cyflawni ei photensial economaidd llawn, gyda gweithlu medrus a gwell cyfleoedd cyflogaeth;
 - Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau'r amgylchedd adeiledig a naturiol, gan ddiogelu a gwella ein hasedau diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol; ac
 - Mae gennym gymunedau cryf, gwydn a chefnogol lle mae pobl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a sut maent yn effeithio ar eraill.

Ategir cynnydd yn erbyn y canlyniadau a nodir yn y Cynllun Lles Corfforaethol gan ymagwedd fwy integredig a chydweithredol.

- 6.4. Gellir gweld bod y risg o ganlyniadau economaidd gwaeth yn cyd-fynd â ffactorau gwaelodol eraill, gan gynnwys tloedi a dyled, camddefnyddio sylweddau, tai gwael a straen sy'n gysylltiedig ag ieched. Mae achosion a chanlyniadau tloedi yn lluosog ac yn gymhleth, tra gall effaith tloedi fod yn bellgyrhaeddol ac yn ddinistriol ar les pobl.

⁶ JRF (2015) Monitro Tlodi ac Allgau Cymdeithasol

- 6.5. Rhaid i'r amcan hwn gydweithio ochr yn ochr â'n hamcanion lles eraill sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol hyn, yn enwedig:
- Mae plant yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus;
 - Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a chefn gwlad; a
 - Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.
- 6.6. Er mwyn cyflawni'r deilliannau a ddynodwyd o fewn Bywyd Gwaith, bydd yn ofynnol cael ymateb integredig ar draws ein holl nodau lles drwy gymhwyso'r pum ffordd o weithio.

7. Amcan Lles Amgylcheddol: Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad⁷



Blaenoriaeth yr amcan hwn yw gwella defnydd effeithlon o ddefnyddiau ac adnoddau gan Hierarchiaeth Wastraff a chreu Cynllun Adfer Natur Cyntaf y Cyngor.

- 7.1. Mae ymchwil yn dangos bod amgylchedd naturiol iach a chefn gwlad yn cynnig manteision lluosog i bobl a bywyd gwyllt o well ansawdd aer, dŵr a thir, diogelu cynefinoedd a bioamrywiaeth well ac yn cael oblygiadau buddiol ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol^{8,9}. *Felly, ffocws yr amcan lles hwn yw'r gwaith a wnawn â'n cymunedau i warchod, gwella a hyrwyddo'r amgylchedd a chefn gwlad.*
- 7.2. Bydd y ffordd yr ydym yn ymddwyn tuag at yr amgylchedd a chefn gwlad yn ffactor hanfodol o ddyfodol cynaliadwy ym Merthyr Tudful oherwydd bydd y manteision o wella ein hamgylchedd i'w gweld ar draws ein holl amcanion lles. Rydym yn diffinio'r amgylchedd fel cefn gwlad a phob man gwyrdd (amgylchedd naturiol) a lleoliadau trefol (amgylchedd trefol) o fewn ffin y Bwrdeistref Sirol. Mae'r diffiniad eang hwn o'r amgylchedd yn cydnabod pwysigrwydd natur mewn amgylcheddau gwledig a threfol.
- 7.3. Mae'r amcan lles hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol i fodloni anghenion lles ym Merthyr Tudful. Dylai'r anghenion hynny gael eu dehongli'n fras i gynnwys gwyrddfannau o ansawdd, gwarchodaeth y cynefinoedd a'r bioamrywiaeth, ecosystemau gwydn, cymeriad y tirwedd ac atal llygredd. Er bod yr ymagwedd hon yn bwysig i'r amgylchedd yn ei gryswth, bydd yn fuddiol i ardaloedd ble mae problemau neu risgiau amgylcheddol allweddol. Y canlyniadau allweddol y mae Lles Amgylcheddol am eu cyflawni yw:
- Lleihau difrod trwy atal llygredd
 - Gwneud y gorau o defnyddio deunyddiau ac adnoddau ailgylchadwy trwy'r hierarchiaeth wastraff;
 - Bod gan Ferthyr Tudful seilwaith manau agored a manau gwyrdd o ansawdd dda a bioamrywiaeth gysylltiedig; a
 - Bod defnydd ynni adnewyddadwy a charbon isel yn cynyddu.
- 7.4. Mae tystiolaeth yn dangos i ni fod problemau amgylcheddol lleol yn gyffredin; fodd bynnag, gall y sefyllfa fod yn waeth mewn ardaloedd incwm isel. Gall materion amgylcheddol lleol gael effeithiau ehangach sy'n cyfrannu at golli manau gwyrdd fforddiadwy a hygyrch; cynnydd mewn gwastraff a thipio anghyfreithlon. Gan fod yr

⁷ Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau gan gymryd i ystyriaeth amrywiaeth rhwng ecosystemau ac o'u mewn; y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac o'u mewn; graddfa'r ecosystemau; cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad) a hyblygrwydd ecosystemau.

⁸ [Adroddiad Blynnyddol y Prif Swyddog Meddygol 2014-15](#)

⁹ [Cwrs Bywyd, Manau Gwyrdd ac Iechyd, 2016.](#)

amgylchedd yn ffactor sylfaenol ac yn dylanwadu ar lawer o amcanion lles eraill, mae'r risgiau a gyflwynir gan amgylchedd diraddiedig yn niferus (e.e.) mynd i'r afael â fandaliaeth a graffiti; diffyg tai fforddiadwy a mannau gwyrdd cyfyngedig). Mae ymchwil yn dangos bod darparu amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd o dlodi ac amddifadedd yn gallu cael effaith gadarnhaol enfawr ar iechyd a lles cymunedau – mwy o foddhad gyda'r cartref, llai o achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ati.

- 7.5. Cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo'r amgylchedd a rhaid i gefn gwlad gydweithio â'n hamcanion lles eraill i fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol hyn, yn enwedig:
- Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da; a
 - Mae pobl yn teimlo cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu, diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.

8. Amcan Byw yn Dda: Mae pobl yn cael eu galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a iechyd meddwl da.



Blaenoriaeth yr amcan hwn yw sicrhau bod pobl yn gallu byw yn annibynnol ac yn ddiogel o fewn eu cymunedau.

- 8.1. Mae angen cymorth ar bobl i fyw'n annibynnol ac yn dda yn eu cymunedau am gyfnod hwy. Mae ymchwil a wnaed gan y Swyddfa Materion Anabledd yn awgrymu bod byw'n annibynnol yn darparu manteision mwy sylweddol ar lefel unigol na mathau confensiynol o ddarpariaeth wasanaethau. Mae yna hefyd dystiolaeth i awgrymu bod pobl hŷn sy'n byw yn lleol yn dymuno parhau i fyw yn eu cartrefi cyn belled ag y bo modd.
- 8.2. Mae'r cysylltiad rhwng iechyd corfforol a meddyliol yn ddiamwys. Gall iechyd corfforol gwael arwain at iechyd meddwl gwael ac i'r gwrthwyneb. I'r gwrthwyneb, gall iechyd corfforol da wella cyflwr meddwl person; gall meddwl cryf ac iach wella'n sylweddol ein gallu i ymdopi ag anhwylderau corfforol. Ceir corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos bod natur yn darparu gwerth ychwanegol i fuddion hysbys gweithgarwch corfforol.
- 8.3. Mae teimlo'n ddiogel yn dylanwadu ar sut mae pobl yn gwerthfawrogi eu cymuned, ac mae'n bwysig i ansawdd bywyd pobl; yn aml yn gwneud y gwahaniaeth rhwng pobl sydd am fyw ac aros yn eu cymdogaeth ai peidio. Mae tystiolaeth i awgrymu bod adeiladu hyder a gwytnwch mewn unigolion a'u cymunedau yn gam pwysig tuag at wella lles.
- 8.4. Mae'r amcan Byw yn Dda yn ceisio nodi a darparu cymorth cynnar effeithiol i oedolion, plant a'u teuluoedd sydd mewn perygl o gael canlyniadau gwael. Drwy fynd i'r afael â materion posibl yn gynnar yn y tymor hwy, bydd hyn yn galluogi mwy o bobl i fyw bywydau diogel ac annibynnol yn eu cymunedau tra'n mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.
- 8.5. Mae ymchwil yn dangos y gall tlodi gael effaith fawr ar bobl a'u gallu i fyw'n annibynnol. Fel bodau cymdeithasol, mae pobl am fod yn aelodau cynhyrchiol, gwerthfawr a gwerthfawr o gymdeithas. Mae sawl dimensiwn i dlodi a gall arwain at bobl yn teimlo'n ddi-rym a llai abl i ddelio â materion na ragwelwyd megis newidiadau yn y system fudd-daliadau genedlaethol a chostau tai uwch. Mae hyn yn eu rhoi mewn perygl o ddiodef mwy o straen corfforol a meddyliol.
- 8.6. Y canlyniadau allweddol hir-dymor y mae Byw yn Dda am eu cyflawni yw:
 - Mae pobl yn byw bywydau diogel ac annibynnol yn eu cymunedau;
 - Mae plant ac oedolion yn cael eu gwarchod rhag rhag niwed ac yn teimlo'u bod yn ddiogel

- Mae a phobl ifanc yn byw yn ddiogel gyda'u teuluoedd neu yn agos at eu cartref a throsglwyddo'n dda i fywyd oedolyn

Yn dilyn adolygiad o'r canlyniadau fel y'u pennwyd ym Mlwyddyn 2 y cynllun, ar gyfer Blwyddyn 3 penderfynwyd ailffocysu'r canlyniadau i gefnogi'r dull mwy integredig/cydweithredol i'w ddilyn er mwyn diwallu'r rhain.

8.7. Rhaid i'r amcan hwn gydweithio â'n holl amcanion lles eraill sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol hyn, yn enwedig:

- Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus;
- Mae pobl yn teimlo cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu, diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol; a
- Mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd a'n cefn gwlad.

9. Atodiad I. Saith Nod Llesiant

NOD	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus sydd wedi'i haddysgu'n dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith teilwng.
Cymru gydnherth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle y manteisir i'r eithaf ar les corfforol a meddyliol pobl a lle y deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath wneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang.

10. Atodiad II: Pum Ffordd o Weithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith sy'n dweud wrth gyrff cyhoeddus sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd o dan y Ddeddf honno. Mae unrhyw gyfeiriad at gorff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy" yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Felly, rhaid sicrhau wrth wneud penderfyniadau, ein bod yn ystyried yr effaith y gallent eu cael ar y bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol.

Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt er mwyn dangos eu bod wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio. Bydd dilyn y ffordd hyn o weithio yn ein helpu i weithio'n well gyda'n gilydd, gan osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor sy'n ein hwynebu.



Tymor Hir

Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.



Atal

Sut gall atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion.



Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.



Cydweithredu

Gweithio mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion lles.



Ymrwymiad

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

11. Atodiad III: Ein Cyd-weledigaeth Bresennol

EIN CYD-WELEDIGAETH

“GWEITHREDU HEDDIW AR GYFER GWELL YFORY”

Y Cymru rydym ni eisiau:

Cymru ffyniannus	Cymru wydn	Cymru iachach	Cymru mwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynol	Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus	Cymru sy'n gyfrifol yn fydeang
------------------	------------	---------------	--------------------	----------------------------	---	--------------------------------

Y weledigaeth a rennir ar gyfer Merthyr Tudful i gyrraedd yno:


I grythau sefyllfa Merthyr Tudful fel canolfan reubarthol Blaenau'r Cymoedd, a bod yn lle i fod yn falch ohono, bie:

Mae pobl yn dysgu a datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgais.


Mae pobl yn byw, yn gweithio, yn cael bywyd diogel, iach a chyflawn.

Mae pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd


Sut y bydd CBS Merthyr Tudful yn gweithio?




Tymor Hir




Atal



Integreiddio



Ymglymiad



Cydweithredu

Sut fyddwn ni'n cydweithio i gyflawni'r Weledigaeth A Rennir a chyflawni ein nodau

Canolbwyntio ar y Dyfodol	Cynllun Lles y BGC	Blaenoriaethau Gwleidyddol
<p>Cychwyn Gorsu i Fywyd Mae gan blant a phobl ifanc y dechrau gorau i fywyd ac mae ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.</p> <p>Bywyd Gwaith Mae pobl yn teimio cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i dalwelu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu, diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfen ddiennadod.</p> <p>Lles Amgylcheddol Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad.</p> <p>Byw yn Dda Mae pobl yn cael eu grymuso i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.</p>	<p>Gwydnwch a Lles y Gymuned Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus sy'n gwella lles trigolion ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol.</p> <p>Ffordd o fyw, iechyd a bregusrwydd I helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgym unrhyw heriau.</p> <p>Economi a Seilwaith I dyfu economi leol gref gyda chlustiant cynaliadwy sy'n deru pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf.</p> <p>Mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd (Amcan trawsbyncio) Byddwn yn gweithio mewn ffordd newydd i silanelu cryfderau'n cymunedau, gan gynnwys gwirfoddolwyr, i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unigrwydd a'r unigedd sy'n aml yn bodoli o fewn llawer ohonynt.</p>	<p>Byddwn yn gafalu am ein holl ddinasyddion trwy dderparu eiddysg a gofali cymdeithasol o ansewdd fforddiadwy sy'n galluogi pawb i fyw eu bywydau i'w llawn potensial.</p> <p>Byddwn yn annog ffyrdd o fyw bywiog a hyrwyddo lles.</p> <p>Byddwn yn cefnogi amgylchedd ac economi cryf, cynaliadwy, amrywiol a llwyddiannus.</p>

12. **Atodiad IV: Yr Edefyn Euraidd**

How Does it Fit Together?



*Merthyr Tudful ...
... lle i fod yn falch ohono*

*Merthyr Tydfil ...
... a place to be proud of*